

Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Mawrth 8fed, 2018 yn Ffestri Capel Pencaenewydd.

Yn bresennol: Y Cyngorwyr Marian Evans (Cadeirydd); Margaret Griffith (Is gadeirydd); William Ifor Hughes; Trefor Wyn Jones; Ceri Jones; Tegid Jones; Aled Lloyd Evans; Aled Davies; Thomas Prys Jones; Sion Aled Jones; Sian Angharad Parry; Naomi Jones a'r Clerc.

1. Croesawu'r Cyngorydd Gareth O Davies, 2 Talafon, Llanystumdwy fel Cyngorydd dros Ward Llanystumdwy ar y Cyngor ac arwyddo'r Datganiad Derbyn Swydd. Roedd Mr Davies wedi anfon ymddiheuriad.
2. Ymddiheuriadau. Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cyngorwyr Angela Williams a Gareth O Davies.
3. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion y Cyngor gynhaliwyd ar Chwefror 1af, 2018.
4. Arwyddwyd cadarnhad taliadau BACS gan y Cadeirydd.
5. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.
6. Datgan buddiant personol. Y Cyngorydd Sion Aled Jones yn datgan buddiant personol yn rhif 8.3 ar y rhaglen waith, Cyngor Gwynedd, cais cynllunio C18/0109/41/RC – cais i dynnu cytundeb 106 fforddiadwy, Dolafon, Llanystumdwy achos mai ef ydi'r perchennog.

7. Cyngor Gwynedd.

1. Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant; Sefydlu Timau Adnoddau Cymunedol. Derbyniwyd er gwybodaeth.

2. Adran Amgylchedd, Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad; Pris am oleuadau fflachio wrth fynd i mewn i Chwilog o ochr Y Ffôr. Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth a chofnodi:

Mae'n anodd rhoi pris hollol gywir ond fel arfer rydym yn gweithio ar gyllid rhwng £1,500 - £3,000 am yr arwydd, costau ei osod gyda 'feed' trydanol yn gallu amrywio ac yn ddibynnol ar leoliad y pwynt trydanol agosaf, sydd wedyn yn ddylanwadau ar faint o dyllu ac ail wynebu'r ffordd sydd ei angen. Mae modd cael rhai 'Solar' fodd bynnag mae'r rhain yn ddrytach ac angen fwy o waith cynnal. Y costau eraill sydd angen ei ffactora yw'r costau cynnal. Mae'r arwyddion yma yn gallu fod yn 'tempramental' ar adegau ac felly angen ei drwsio o'i bryd yw gilydd, mae costau 'call out' yn oddeutu £300-500 gan beiriannydd arbenigol ac wedyn costau nwyddau.

Felly rydych yn edrych ar gost oddeutu £3,000 – 5,000 sydd dim yn cynnwys costau cynnal.

3. Adran Amgylchedd, Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad; Arwydd Ysgol Chwilog. Derbyniwyd yr ateb y trefnir asesiad o'r safle gyda'r bwriad o geisio lleoliad addas ar gyfer arwydd o'r fath.

4. Prif Swyddog Amgueddfeydd a'r Celfyddydau; Gofyn am Lythyr Cefnogaeth. Penderfynwyd anfon llythyr i gefnogi cais am gymhorthdal at Gronfa Treftadaeth y Loteri ar gyfer sicrhau dyfodol cynaliadwy ar gyfer Amgueddfa Lloyd George, Llanystumdwy.

5. Adran Amgylchedd; Deddf Rheoli Trafnidiaeth y Ffyrdd 1984 Adran 14(2) wedi ei gywiro gan y Ddeddf Trafnidiaeth Ffordd (cyfyngiadau dros dro) 1991 – Cau'r Ffordd Ddi Ddosbarth gyferbyn â Fferm Gwernallt, Llanarmon. Derbyniwyd er gwybodaeth.

6. Economi a Chymuned; Gwynedd Ddigidol: Mynediad i bawb. Penderfynwyd anfon y wybodaeth ymlaen i bwyllgorau Neuadd Goffa Chwilog a Neuadd Llanystumdwy.

*Trwy ganiatâd y Cadeirydd:

7. Uwch Swyddog Hawliau Tramwy; Cynnal Llwybrau Cyhoeddus Llanystumdwy. Penderfynwyd parhau i fod yn rhan o gynllun ad dalu Cyngor Gwynedd a'r swm sydd wedi'i glustnodi ar gyfer y Cyngor yma ydi £417.80c sef 50%.

8. Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Materion y Gymuned. Daeth yr ateb ynghylch difrod i ymyl y ffordd rhwng Bod Alaw a thai Groesffordd, Chwilog yn dweud mai Cartrefi Cymunedol Gwynedd sydd yn gyfrifol am gynnal y llecyn glas. Penderfynwyd anfon at Gadeirydd Cartrefi Cymunedol Gwynedd ynghylch hyn a'r wal sydd dal heb gael ei hatgyweirio ym maes parcio Llanystumdwy.

8. Cyngor Gwynedd.

Ceisiadau Cynllunio yn y gymuned:

1. Cais C18/0087/41/LL – Creu balcony allanol newydd; Hen Felin, Rhoslan. Cefnogwyd.

2. Cais C17/1206/41/LL – Codi estyniad unllawr ar gefn yr eiddo; Pennant, Chwilog. Penderfynwyd cefnogi.

*Trwy ganiatâd y Cadeirydd:

3. Cais C18/0109/41/RC – Cais i dynnu Cytundeb 106 fforddiadwy; Dolafon, Llanystumdwy. Roedd y Cynghorydd Sion Aled Jones wedi datgan budd personol ac ymneilltuodd tra trafodwyd y cais. Dim gwrthwynebiad oedd penderfyniad y Cynghorwyr.

4. Cais C17/1089/41/LL – Newid defnydd adeilad allanol i ddefnydd priodasau a chodi estyniad cefn; Talhenbont Hall, Chwilog. Penderfynwyd cefnogi'r cais.

5. Cais C18/0176/41/LL – Cais llawn i ddymchwel ty presennol a chodi ty newydd; Llain Gam, Chwilog. Cefnogwyd.

9. Rheolau Sefydlog a Pholisiau'r Cyngor; arweiniad gan y Cynghorwyr Margaret Griffith, Trefor W Jones a Thomas Prys Jones. Roedd y Cynghorwyr wedi derbyn copiau o'r rhain ymlaen llaw. Penderfynwyd derbyn y newidiadau, cyflwyno'r polisiau diwygiedig i'w mabwysiadu yn y Cyngor nesa a newid y fersiynau Saesneg fel y caiff y Clerc gyfle.

10. Lwfansau Cynghorwyr Cymuned a Thref 2018-19. Erbyn hyn mae'r fersiwn terfynol wedi gweld golau dydd. Penderfynwyd ymateb fel y daw yr oblygiadau i'r Cyngor yma yn fwy eglur.

11. Cyngor Tref Cricieth; Diwrnod o Gasglu Atgofion Rhyfel Byd Cyntaf yn Ysgol Treferyth, Cricieth, prynhawn agored, ddydd Mercher, Mawrth 7fed, 2018, rhwng 1.30 a 6pm. Derbyniwyd er gwybodaeth.

12. Clwb Moduro Harlech a'r Cylch Cyf., Rali Goffa Merfyn Hughes Rali Llŷn Mawrth 17/18. Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth.

13. **Materion yn y gymuned.**

Llanarmon

Llanystumdwy –

Rhoslan /Ynys

Chwilog

Pencaenewydd/Sardis

Y gwteri yn ardal Pencaenewydd; arweiniad gan y Cynghorydd William Ifor Hughes. Deallir bod y gwaith wedi'i wneud. Penderfynwyd anfon i ddiolch i Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd am eu hymdrechion i ymateb i'n gofynion.

Llangybi

Mater gan y Cynghorydd Thomas Prys Jones.

Roeddem yn cerdded ar y ffordd heibio Terfyn a Chefn Rhosgyll y prawn yma, ac yr oedd llyn o ddŵr dros hanner y ffordd rhwng y ddau le hyd yn oed heddiw. Mae'n amlwg fod ffos o ddŵr rhedegog ar fin y ffordd angen ei chlirio.

Penderfynwyd cynnwys hyn yn y llythyr diolch uchod.

14. Mae'n amser cael golwg ar y biniau halen yn y gymuned, os gwelwch yn dda all y Cynghorwyr lleol gael golwg. Dyma'r lleoliadau:

a. Lôn Pentyrch/Pentyrch Ucha.

b. Ger Gwyddfor, Chwilog.

c/ch. Ar y ffordd heibio Fron Oleu, Rhoslan, mae un ger Bryn Beddau ac un arall dros y bont i fyny am Gapel y Beirdd.

d. Lôn gefn Llanystumdwy i Gricieth.

Ar ôl cael adroddiadau am y sefyllfa penderfynwyd nad oes angen llenwi rhain ar hyn o bryd.

15. Llythrau/e byst yn diolch am gyfraniadau ariannol gan y Cyngor yma.

1. Eisteddfod Gadeiriol Chwilog

2. Mynwent Capel Helyg, Llangybi

3. Mynwent Rydd ac Anenwadol Chwilog

4. Mynwent Newydd Llanystumdwy

5. Clwb Ffermwyr Ifanc Llangybi.

6. Clwb Peldroed Llanystumdwy

7. Neuadd Goffa Chwilog.

8. Neuadd Llanystumdwy.

9. Cymdeithas Adloniant Capel Pencaenewydd

10. Clwb Hoci Pwllheli

11. Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018

12. Eisteddfod yr Urdd Brycheiniog a Maesyfed 2018

13. Gŵyl Gerdd Dant Blaenau Ffestiniog a'r Fro 2018

14. Dawns i Bawb.

15. Theatr Bara Caws.

Derbyniwyd yr ymatebion un ag oll.

Materion Ariannol

16. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Yn ôl ei arfer rhoddwyd adroddiad lawn o'r union sefyllfa ariannol, yn cael ei chefnogi gan adroddiadau banc cyfredol. Does dim peryg i'r Cyngor fynd i ddyled. Eglurodd y Clerc bydd mwy o arian na'r disgwyl yn cael ei drosglwyddo i'r flwyddyn ariannol newydd achos bod dau waith sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor heb gael eu cwblhau, sef y gwaith ar Gae Chwarae Llangybi am £1,965.60c yn cynnwys TAW a'r gwaith symud y safle bws ger tai Cae'r Ffynnon yn Llanystumdwy am £1,800- yn cynnwys TAW. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

17. Anfonebau angen eu talu:

1. Criccieth Cleaning Ltd. am lanhau chwarterol y llochesi bws ar Ionawr 9fed, 2018; £103- +TAW, cyfanswm £123.60c, taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.

2. Anfoneb am logi Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor am y flwyddyn 2017/18, £56.25c, taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.

3/4. Cyflog chwarter y Clerc, Ionawr/Chwefror/Mawrth 2018, i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM;

Cyflog sylfaenol gross; 30 awr x 3 mis x £10.467c. = £942-

Cyllid a Thollau EM; £942- x 20% = £188.40c; taliad siec rhif 100978.

Penderfynwyd ei dalu.

cyflog net = £753.60c; taliad siec rhif 100979. Penderfynwyd ei dalu.

5. Costau chwarterol y Clerc, £145.75c; taliad siec rhif 100980. Penderfynwyd ei dalu.

18. Cais am gyfraniad ariannol oddi wrth Gymdeithas Parêd Dewi Sant Pwllheli.. Penderfynwyd cysylltu i egluro mai ym mis Chwefror y caiff ceisiadau am gymorth ariannol eu trafod ac felly eu bod yn rhy hwyr am eleni.

*Trwy ganiatâd y Cadeirydd:

19. Cais am gyfraniad ariannol oddi wrth Apêl Ambiwylans Awyr Cymru i Blant. Penderfynwyd cysylltu i egluro mai ym mis Chwefror y caiff ceisiadau am gymorth ariannol eu trafod ac felly eu bod yn rhy hwyr am eleni.

20. Copi o Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol mewn Cyngorau Lleol 2016-17. Penderfynwyd derbyn.

21. Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o holl gynghorau tref a chymuned Cymru. Penderfynwyd gofyn i'r Clerc ymateb ar ran y Cyngor os caiff gyfle.

22. Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) – Arweinlyfr Diogelu Data.

Bydd y rheoliad hwn yn cael ei weithredu drwy gyfrwng Deddf Diogelu Data newydd.

Bydd rhaid sicrhau bod gofyniadau'r rheoliad newydd yn eu lle o fewn y Cyngor erbyn Mai 25ain, 2018. Penderfynwyd anfon at UnLlais Cymru yn gofyn am bolisi enghreifftiol fyddai'n addas ar gyfer cyngor maint Cyngor Cymuned Llanystumdwy.

Yn ogystal gofynnwyd iddynt am enghraifft o bolisi cwyno.

It is possible to get an English translation of any minute; contact the Clerk.